Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cyfarwyddyd

8. Adrodd yn flynyddol, cyhoeddi a dyletswyddau Gweinidogaethol: Canllaw i awdurdodau cyhoeddus rhestredig yng Nghymru

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Cynnwys

1. Cyd-destun ar gyfer y canllaw hwn 2
1.1 Beth yw awdurdod cyhoeddus rhestredig yng Nghymru? 3
1.2 Deddf Cydraddoldeb 2010 3
1.3 Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol? 3

2. Dyletswyddau penodol yng Nghymru 4
2.1 Pwy sydd wedi eu cynnwys dan y dyletswyddau penodol? 4
2.2 At bwy mae'r canllaw anstatudol wedi ei anelu? 4

3 Adrodd yn flynyddol 5
3.1 Beth mae'r ddyletswydd yn gofyn amdano o ran adrodd yn flynyddol 5

4 Cyhoeddi 6
4.1 Beth mae'r ddyletswydd yn gofyn amdano o ran cyhoeddi 6

5 Adolygu 8
5.1 Beth mae'r ddyletswydd yn gofyn amdano o ran adolygu 8

6 Hygyrchedd 9
6.1 Beth mae'r ddyletswydd yn gofyn amdano o ran hygyrchedd 9

7 Adrodd gan Weinidogion Cymru 10

1. Cyd-destun ar gyfer y canllaw hwn

Dyddiadau allweddol ar gyfer dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

5 Ebrill 2011	Dyletswydd gyffredinol yn dod i rym
6 Ebrill 2011	Dyletswyddau penodol yng Nghymru yn dod i rym
2 Ebrill 2012	Cyrff rhestredig yng Nghymru i gyhoeddi amcanion cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol
2 Ebrill 2012	Rhaid bod cyrff rhestredig yng Nghymru wedi ymgysylltu â phobl â diddordeb fel rhan o'r gwaith o gasglu gwybodaeth berthnasol i asesu eu gweithgareddau yn erbyn y ddyletswydd gyffredinol. Rhaid cyhoeddi gwybodaeth berthnasol fel y bo'n briodol.

1.1 Beth yw awdurdod cyhoeddus rhestredig yng Nghymru?

I ddibenion y canllaw hwn, mae awdurdod cyhoeddus rhestredig yng Nghymru (neu 'gorff rhestredig') yn un sydd wedi ei gynnwys yn Rhan 2 Atodlen 19 y Ddeddf fel y'i hategwyd a'i haddaswyd gan Orchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Pennu Awdurdodau Cymreig Perthnasol) 2011. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, awdurdodau lleol, cyrff addysg (yn cynnwys ysgolion), cyrff iechyd a Llywodraeth Cymru.

1.2 Deddf Cydraddoldeb 2010

Daw Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) a deddfau gwrthwahaniaethu blaenorol ynghyd mewn un Ddeddf sy'n eu disodli. Mae'n symleiddio a chryfhau'r gyfraith, yn cael gwared ar anghysonderau ac yn ei gwneud yn haws i bobl ei deall a chydymffurfio â'r gofynion. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys **dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus** newydd (y 'ddyletswydd gyffredinol'), sy'n cymryd lle dyletswyddau unigol ar hil, anabledd a chydraddoldeb rhyw. Daeth hyn i rym ar 5 Ebrill 2011.

1.3 Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau yn cael eu cynnwys yng nghynllun, polisïau a chyflawniad gwasanaeth a'u bod yn cael eu cadw dan arolwg. Bydd hyn yn sicrhau gwell deilliannau i bawb.

Mae gofyn i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i:

1. ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
2. hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt
3. meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Mae'r canllaw hwn yn cyfeirio at y tair elfen hyn fel tri 'nod' y ddyletswydd gyffredinol ac felly pan fyddwn yn trafod y ddyletswydd gyffredinol, rydym yn golygu'r tri nod.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol newydd yn cwmpasu'r nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Rhyw
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred

Mae'n berthnasol i briodas a phartneriaeth sifil, ond dim ond parthed y gofyniad i roi sylw priodol i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu.

Mae'r canllaw hwn ar adegau yn defnyddio'r ymadrodd 'grŵp gwarchodedig' i gyfeirio at bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig.

2. Dyletswyddau penodol yng Nghymru

Diben eang y dyletswyddau penodol yng Nghymru yw helpu cyrff rhestredig yn eu perfformiad o'r ddyletswydd gyffredinol ac i hwyluso tryloywder.

2.1 Pwy sydd wedi eu cynnwys dan y dyletswyddau penodol?

Mae'r dyletswyddau penodol yn berthnasol i gyrff rhestredig yng Nghymru ond nid i awdurdodau cyhoeddus heb eu datganoli sy'n gweithredu yng Nghymru.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru sydd wedi eu cynnwys dan y ddyletswydd gyffredinol hefyd wedi eu cynnwys dan y dyletswyddau penodol. Mae'r dyletswyddau penodol yn cyflwyno'r camau y mae'n rhaid i gyrff rhestredig yng Nghymru gymryd er mwyn arddangos eu bod yn rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd gyffredinol.

Mae'r canllaw hwn yn un o gyfres o ganllawiau anstatudol ar y dyletswyddau penodol.

Mae'r dyletswyddau'n cysylltu â'i gilydd a gellir canfod mwy o fanylion am bob agwedd yn y canllawiau canlynol:

1. Y canllaw hanfodol i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (trosolwg)
2. Amcanion cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol
3. Ymgysylltiad
4. Asesu effaith
5. Gwybodaeth am gydraddoldeb
6. Gwybodaeth am gyflogaeth, gwahaniaethau tâl a hyfforddiant staff
7. Caffael
8. Adrodd blynyddol, cyhoeddi a dyletswyddau gweinidogol (yn cynnwys arolwg a hygyrchedd)

2.2 At bwy mae'r canllaw anstatudol wedi ei anelu?

Mae'r canllaw anstatudol wedi ei ddatblygu'n bennaf i'r rhai sy'n gyfrifol am weithredu'r dyletswyddau penodol i Gymru, yn arbennig y rhai ar lefel uwch a gweithredol sy'n gyfrifol am bolisi a gwneud penderfyniadau. Bydd y canllaw hefyd yn ddefnyddiol i unrhyw un sydd â diddordeb yn y gwaith a gweithgareddau awdurdodau cyhoeddus.

Mae'n bwysig bod swyddogion uwch sy'n gyfrifol am benderfyniadau mewn awdurdodau cyhoeddus (megis Prif Weithredwyr, Cadeiryddion ac aelodau Byrddau) yn derbyn cyfarwyddyd digonol ar y ddyletswydd gyffredinol a dyletswyddau penodol. Dylai hyn eu paratoi i sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i gydraddoldeb yn y sefydliad a dylanwadu ar benderfyniadau ar bob lefel.

Mae'r blwch (blychau) testun isod yn amlinellu gofynion y rheoliadau ac mae'r rhain yn ymddangos hefyd yn y *Canllaw hanfodol*. Mae'r testun ychwanegol yn y canllaw hwn yn rhoi cyd-destun pellach ynghylch y dyletswyddau penodol.

3. Adrodd yn flynyddol

3.1 Beth mae'r ddyletswydd yn gofyn amdano o ran adrodd yn flynyddol

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru:

- gynhyrchu adroddiad blynyddol erbyn 31 Mawrth pob blwyddyn.

Rhaid i'r adroddiad cydraddoldeb blynyddol gyflwyno yn benodol:

- y camau mae awdurdod wedi'u cymryd i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol
- sut mae'r awdurdod wedi defnyddio'r wybodaeth hon i fodloni tri nod y ddyletswydd gyffredinol
- unrhyw resymau dros beidio â chasglu gwybodaeth berthnasol
- datganiad am effeithiolrwydd trefniadau awdurdod i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol
- cynnydd tuag at gyfiawnhau pob un o amcanion cydraddoldeb yr awdurdod
- datganiad am effeithiolrwydd y camau mae'r awdurdod wedi'u cymryd i fodloni pob un o'i amcanion cydraddoldeb
- gwybodaeth benodol am gyflogaeth, yn cynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a thâl (oni bai ei fod eisoes wedi cyhoeddi'r wybodaeth hon yn rhywle arall).

Gall awdurdod gynnwys unrhyw fater arall y teimla sy'n berthnasol i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletswyddau penodol yn ei adroddiadau blynyddol.

4. Cyhoeddi

4.1 Beth mae'r ddyletswydd yn gofyn amdano o ran cyhoeddi

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gyhoeddi'r canlynol ar ffurf hygyrch:

- adroddiad cydraddoldeb blynyddol
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol (ac unrhyw ddiwygiadau)
- amcanion cydraddoldeb yn cynnwys datganiadau cysylltiedig parthed amserlenni a gweithredoedd i'w cymryd
- ei resymau dros benderfynu peidio â chyhoeddi unrhyw amcan cydraddoldeb parthed un nodwedd warchodedig neu fwy. Rhaid gwneud hyn hyd yn oed os yw awdurdod wedi cyhoeddi amcan cydraddoldeb i ddelio ag achosion unrhyw wahaniaeth mewn tâl yn ymwneud â'r nodwedd warchodedig honno
- ei resymau dros benderfynu peidio â chyhoeddi amcan cydraddoldeb i ddelio ag achosion gwahaniaeth tâl ar sail rhywedd os yw wedi nodi gwahaniaeth mewn tâl rhwng dynion a menywod
- cynllun gweithredu i ddelio â'r gwahaniaeth tâl ar sail rhywedd
- adroddiadau am ei asesiadau o effaith polisïau ac arferion arfaethedig ac unrhyw adolygiadau o bolisïau ac arferion presennol ar grwpiau gwarchodedig, **ble mae'r effaith yn sylweddol**. Rhaid i'r adroddiadau gynnwys:
  - pwrpas y polisi neu arfer arfaethedig
  - crynodeb o'r camau a gymerwyd i gyflawni'r asesiad
  - crynodeb o'r wybodaeth a ystyriwyd yn yr asesiad
  - canlyniadau'r asesiad
  - unrhyw benderfyniad a wnaed.
- gwybodaeth benodol am gyflogaeth, yn cynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a thâl (gellir cyhoeddi hyn fel rhan o'r adroddiad cydraddoldeb blynyddol)
- unrhyw wybodaeth berthnasol am gydraddoldeb (sydd yn ei feddiant ac y mae'n ystyried sy'n briodol i'w gyhoeddi).

Gall awdurdod gyhoeddi ei adroddiad blynyddol neu ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar wahân neu mewn dogfennau eraill.

Pryd i gyhoeddi

- **Amcanion Cydraddoldeb:** Rhaid i gorff rhestredig gyhoeddi ei amcanion cydraddoldeb erbyn **2 Ebrill 2012**. Gall corff cofrestredig adolygu amcan cydraddoldeb ar unrhyw adeg, ond mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r fersiwn newydd (neu ddiwygiadau) cyn gynted â phosibl wedi gwneud unrhyw newidiadau.
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol: Rhaid i gorff rhestredig gyhoeddi ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf erbyn **2 Ebrill 2012**. Gall corff cofrestredig adolygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar unrhyw adeg, ond mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r fersiwn newydd (neu ddiwygiadau) cyn gynted â phosibl ar ôl gwneud unrhyw newidiadau.
- **Gwybodaeth am Gydraddoldeb:** Mae'n ofynnol i gorff rhestredig wneud trefniadau priodol i sicrhau ei fod o bryd i'w gilydd yn:
  - nodi gwybodaeth berthnasol sydd yn ei feddiant
  - nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol nad yw yn ei feddiant
  - cyhoeddi gwybodaeth berthnasol sydd yn ei feddiant, oni bai y byddai'n amhriodol gwneud hynny.

  Rhaid cyhoeddi'r wybodaeth hon erbyn **2 Ebrill 2012** a'i hadolygu o bryd i'w gilydd. Bydd yr wybodaeth yn cynnwys asesiad o bethau a wnaed gan yr awdurdod a allai gyfrannu tuag at fodloni ei ddyletswydd gyffredinol.
- Gwybodaeth am gyflogaeth: Gallai adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth ddynodedig am gyflogaeth parthed cyflogeion ac ymgeiswyr ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Os nad yw'r adroddiad blynyddol yn cynnwys yr wybodaeth honno, bydd angen ei chynnwys mewn dogfennaeth arall ar **sail flynyddol**.
- Rhaid cyhoeddi adroddiadau cydraddoldeb blynyddol erbyn **31 Mawrth bob blwyddyn**.

4.2 Lle mae corff rhestredig wedi penderfynu peidio â chyhoeddi amcan cydraddoldeb mewn perthynas ag un neu fwy o nodweddion gwarchodedig rhaid iddo gyhoeddi ei resymau am y penderfyniad hwnnw. Rhaid i gorff rhestredig gyhoeddi ei amcanion cydraddoldeb yn ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol. Gallai gynnwys ei resymau am beidio â chyhoeddi amcan cydraddoldeb mewn perthynas ag un neu fwy o nodweddion gwarchodedig fel rhan o'i Gynllun Cydraddoldeb Strategol.

4.3 Bydd yr adroddiad blynyddol cyntaf yn cwmpasu'r cyfnod o 6 Ebrill 2011 i 31 Mawrth 2012. Y terfyn amser i'r adroddiad blynyddol cyntaf yw 31 Mawrth 2013. Efallai, y bydd o gymorth i bob corff rhestredig gysoni ei adroddiad â'i gylch busnes arferol yn hytrach nag aros tan y 31 Mawrth canlynol i adrodd ar wahan. O ganlyniad, byddai'r cofnod o gynnydd ar gydraddoldeb yn fwy diweddar ac o'r brif - ffrwd.

5. Adolygu

5.1 Beth mae'r ddyletswydd yn gofyn amdano o ran adolygu

Rhaid i gyrff rhestredig adolygu:

- eu hamcanion cydraddoldeb o leiaf bob pedair blynedd
- eu Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac unrhyw ddiwygiadau. Rhaid gwneud hyn gan roi sylw priodol i wybodaeth berthnasol sydd ym meddiant yr awdurdod ac i unrhyw wybodaeth arall mae'r awdurdod yn ystyried a fyddai'n debygol o helpu yn yr arolwg.

O ganlyniad i'r broses adolygu, gallai awdurdod benderfynu diwygio'r trefniadau, yr amcanion neu'r Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol. Os yw'n gwneud hynny, rhaid iddo gyhoeddi'r newidiadau hyn eto cyn gynted â phosibl ac mewn modd hygyrch.

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru barhau i adolygu ei drefniadau ar gyfer:

- monitro effeithiolrwydd ei gamau, a'i gynnydd tuag at gyflawni ei amcanion cydraddoldeb
- nodi, casglu a chyhoeddi gwybodaeth berthnasol
- asesu effaith polisïau ac arferion sy'n cael eu cynnig neu eu hadolygu
- monitro effaith polisïau ac arferion
- hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o ddyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a phenodol, gan ddefnyddio unrhyw weithdrefnau asesu perfformiad i nodi a delio ag anghenion hyfforddiant cysylltiedig.

6. Hygyrchedd

6.1 Beth mae'r ddyletswydd yn gofyn amdano o ran hygyrchedd

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru:

- gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y cyhoeddir unrhyw ddogfen neu wybodaeth y mae'n ofynnol iddo eu cyhoeddi i fodloni dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol neu benodol ar ffurf sy'n hygyrch i bobl o grwpiau gwarchodedig.

6.2 Fel rhan o'i drefniadau ar gyfer hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o staff mewn perthynas â dyletswyddau cydraddoldeb, dylai awdurdod ystyried cynyddu ymwybyddiaeth am faterion yn ymwneud â hygyrchedd. Bydd angen i staff gynllunio ymlaen llaw yn eu hamserlen cyhoeddi i sicrhau y gallant neilltuo'r amser ychwanegol a gymer i gael gwybodaeth wedi ei pharatoi mewn ieithoedd eraill a fformatau hygyrch.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n darparu gwasanaethau, nwyddau a chyfleusterau neu sy'n cyflawni swyddogaeth wneud addasiadau rhesymol fel nad yw pobl anabl yn cael eu rhoi o dan anfantais sylweddol. Mae hyn yn cynnwys cymryd camau rhesymol i sicrhau y darperir gwybodaeth mewn fformat hygyrch. Mae'r ddyletswydd benodol yn datblygu ar y ddarpariaeth wrthwahaniaethu hon i bobl anabl, ond mae'n berthnasol i'r holl nodweddion perthnasol a warchodir.

Er enghraifft, bydd angen i gorff rhestredig ystyried nid yn unig fformatau fel Easy Read (ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu yn bennaf), ond hefyd ystod o ieithoedd cymunedol gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain. Lle cyhoeddir gwybodaeth ar wefan bydd angen cymryd gofal i sicrhau ei bod yn hygyrch i'r rhai hynny gydag amhariadau ar eu golwg neu amhariadau eraill. Dylid lleoli gwybodaeth mewn dull rhesymegol a chyson a dylai fod yn hawdd i'w chanfod gan ddefnyddio cyfleuster chwilio.

Oherwydd bod pobl o fewn rhai grwpiau gwarchodedig yn llai tebygol o gael mynediad i'r rhyngrwyd, bydd angen i awdurdodau rhestredig gyhoeddi gwybodaeth allweddol mewn print neu mewn fformatau eraill (fel Braille neu CD).

7. Adrodd gan Weinidogion Cymru

Mae Gweinidogion Cymru yn ddarostyngedig i'r holl ddyletswyddau penodol yn yr un modd â chyrff rhestredig eraill yng Nghymru.

Yn ogystal, mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd benodol i gyhoeddi adroddiad ar sut mae awdurdodau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru yn bodloni eu dyletswydd gyffredinol. Mae'n ofynnol iddynt gyhoeddi adroddiad yn ddim hwyrach na 31 Rhagfyr 2014 a phob pedair blynedd wedi hynny. Mae'n ofynnol iddynt gyhoeddi adroddiad dros dro bob dwy flynedd.

Rhaid i'r adroddiadau hyn gyflwyno trosolwg o'r cynnydd a wnaed gan awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru tuag at gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol a'r cynigion i gydlynu gweithredu gan awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i ysgogi cynnydd pellach ynghylch y ddyletswydd gyffredinol.

Fel cytundeb dros dro o ofynion y ddyletswydd cydraddoldeb anabledd flaenorol, rhaid i Weinidogion Cymru hefyd gyhoeddi adroddiad erbyn 31 Rhagfyr 2011, yn cyflwyno trosolwg o gynnydd a wnaed gan awdurdodau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru tuag at fodloni'r ddyletswydd gyffredinol parthed anabledd a chynigion ar gyfer cydlynu gweithredu.

Information gathered by listed bodies under the duties will provide Welsh Ministers with evidence on the progress made on equality by devolved public authorities.

Ministers will be able to look at progress, or lack of progress, by authorities within their portfolio or by locality, in order to identify trends or barriers to meeting the general equality duty.

Cysylltwch â ni

Cymru

Llinell gymorth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Llawr 3, 3 Sgwâr Callaghan, Caerdydd CF10 5BT

Llinell gymorth:

Prif rif ffôn
0845 604 8810

Ffôn testun
0845 604 8820

Ffacs
0845 604 8830

Lloegr

Llinell gymorth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Arndale House, Arndale Centre, Manceinion M4 3AQ

Llinell gymorth:

Prif rif ffôn
0845 604 6610

Ffôn testun
0845 604 6620

Ffacs
0845 604 6630

Yr Alban

Llinell gymorth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

The Optima Building, 58 Robertson Street, Glasgow G2 8DU

Llinell gymorth:

Prif rif ffôn:
0845 604 55 10

Ffôn testun
0845 604 5520

Ffacs
0845 604 5530

Amserau agor y llinell gymorth:

Dydd Llun i ddydd Gwener: 8am–6pm

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â'r llinell gymorth berthnasol i drafod eich anghenion. Gallwch lwytho pob cyhoeddiad i lawr hefyd a'u harchebu mewn amrywiaeth bo fformatau o'n gwefan:

www.equalityhumanrights.com

© Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Ebrill 2011
ISBN 978 1 84206 417 7

Gwaith celf gan Epigram
www.epigram.co.uk

www.equalityhumanrights.com

Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission